

Cadw mewn cysylltiad

“... cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio fe'i torrodd a'i roi i'r disgyblion, a dywedodd, 'Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff.'” (adn. 26)

Beth am ddarlflen Mathew 26:17–30 ac yna myfyrio

Rydyn ni am barhau i fyfyrio ar rym y pryd syml a roddodd Iesu i ni, sydd bellach yn cael ei alw'n Gymun Bendigaid. Mae rhai Cristnogion yn tueddu i wfftio'r corfforol o blaid yr ysbrydol, ond oherwydd yr ymgnawdoliad, gallwn gadw'r materol a'r ysbrydol ynghyd. Roedd cyffyrddiad Iesu – croen ar groen, cnawd ar gnawd – bob amser yn fendith i wahanglwyfion a phlant. Daeth Iesu â Duw i deyrnas y materol a'r cyffyrddadwy yn y corff dynol iawn roedd ar fin ei offrymu ar y groes.

Yn union fel y bu corff dynol Iesu yn gyfrwng i ddatguddio bywyd trosgynnol tragwyddol Duw, felly hefyd y gall elfen faterol fel bara fod yn ffordd i agor ein dychymyg i dderbyn bywyd Duw ar ein cyfer. Mae'r cymal “hwn yw fy nghorff” yn ddelwedd bwerus sy'n dangos mai ei offrymu ei hun fel Oen y Pasg oedd gan Iesu dan sylw. Pan ddywedodd wrth ei ddisgyblion, “Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff”, roedd yn cynnig iddynt gyfran yn ei fywyd ei hun a oedd ar fin cael ei dorri ar y groes ar eu cyfer.

Fel pobl Crist, mae ein hatgoffa ein hunain o bwy ydy Iesu a'r hyn a ddywedodd, bob tro y byddwn yn torri bara, yn golygu ein bod yn adnewyddu ein cymundeb ag ef. Dywedodd y diwinydd Dale Bruner nad oedd Iesu am adael ei eiriau yn unig i'r Eglwys, ond yn hytrach ei eiriau a'i gyffyrddiad, ac felly – er mwyn cadw mewn cysylltiad – sefydlodd y swper. Ac fel y dywedodd Eglwyswr o gyfnod cynharach, H.P. Liddon: “Y sacramentau ydy'r manau cyswllt di-ffael â'r Gwaredwr anweledig.” Yn bendant!

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Salm 40:5–8, 16; Ioan 6:48–58; Heb. 7:23–28; 10:5–10; 1 Pedr 1:1–9, 18–21

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Iesu yn cydio bywyd crediniwr â'i fywyd ef?
2. Sut mae Pedr yn disgrifio'r berthynas sydd gan gredinwyr â'r Iesu?

Gweddi

O Dad, dw i'n hynod ddiolchgar am ddoethineb dy Fab yn rhoi i ni'r rhodd o bryd bwyd sydd â chymaint o gysylltiadau hyfryd a chyfoethog. Helpa fi i dderbyn ohono bobeth y rhoddodd ef ynddo. Yn enw Iesu. Amen.